| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | Ionawr 09, 2013 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Pennaeth Cyllid ac Asedau |
| **Teitl:** | Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys 2013/14 a Dangosyddion Darbodus 2013/14 i 2015/16 |

## 1 Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

1.1 Mae'r adroddiad yn dangos sut y bydd y Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau yn y flwyddyn i ddod ac yn gosod y polisïau y bydd swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys yn gweithio o'u mewn. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu effaith tebygol y Cynllun Corfforaethol ar y strategaeth yma ac ar y Dangosyddion Darbodus.

1.2 Dylid nodi mai ffigurau drafft yw'r rhai sydd yn yr adroddiad yma ac fe'u diweddarir cyn cymeradwyaeth y Cyngor yn seiliedig ar y Cynllun Cyfalaf diweddaraf ym mis Chwefror 2013.

## 2 Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?

2.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor, yn ôl Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reolaeth Trysorlys, gymeradwyo Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys uchod a Dangosyddion Darbodus yn flynyddol. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol adolygu'r adroddiad cyn ei gymeradwyo gan y Cyngor ar Chwefror 26, 2013.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn adolygu Datganiad Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys ar gyfer 2013/14 a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2013/14, 2014/15 a 2015/16 (Atodiad 1).

## 4 Manylion yr Adroddiad

### Cefndir

4.1 Mae Rheolaeth y Trysorlys yn golygu gofalu am arian y Cyngor ac mae hynny'n rhan hanfodol o waith y Cyngor gan fod oddeutu £0.5bn yn mynd drwy gyfrif banc y Cyngor bob blwyddyn.

4.2 Bydd gan y Cyngor, ar unrhyw adeg, o leiaf £20m mewn arian felly mae angen i ni ofalu ein bod yn cyflawni'r cyfraddau enillion gorau posib heb beryglu'r arian a dyna pam y byddwn yn buddsoddi arian â nifer o sefydliadau ariannol.

Wrth fuddsoddi, blaenoriaethau'r Cyngor ydi:

- cadw arian yn saff (diogelwch);

- gofalu ein bod yn cael yr arian yn ôl pan fydd arnom ei angen (hylifedd);
- gofalu ein bod yn cael cyfradd enillion weddus (arenillion).

**Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys 2013/14**

4.3 Fe fynegir Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2013/14 yn Atodiad A. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Dangosyddion Darbodus sy'n gosod cyfyngiadau ar weithgaredd rheoli trysorlys y Cyngor ac yn dangos bod benthyca gan y Cyngor yn fforddiadwy.

**Dangosyddion Darbodus:**

4.4 Mae dangosyddion Cronfa'r Cyngor yn seiliedig ar y bidiau cyfalaf arfaethedig diwethaf ac fe gaiff y rhain eu diweddaru cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar Chwefror 26, 2013.

4.5 Fe gyfrifwyd dangosyddion y Cyfrif Refeniw Tai yn seiliedig ar yr amcangyfrifon diweddaraf o Gynllun Busnes y Stoc Tai. Fe gaiff y rhain eu diweddaru'n unol â'r gyllideb a gymeradwyir gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar Chwefror 19, 2013.

4.6 Mae'r Dangosyddion Darbodus unigol a gymeradwyir i'w cymeradwyo wedi eu mynegi yn Atodiad B.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae strategaeth effeithlon o Reoli'r Trysorlys yn caniatáu i'r Cyngor isafu ei gostau benthyca a rhyddhau cyllid ar gyfer ei flaenoriaethau buddsoddi.

## 6 Beth fydd hyn yn ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes yna unrhyw oblygiadau cost yn codi o ganlyniad i osod y Dangosyddion Darbodus. Pwynt y Strategaeth Reoli'r Trysorlys ydi cael yr elw orau o fewn fframwaith risg a reolir yn briodol.

## 7 Pa ymgynghoriadau a gafwyd?

7.1 Fe baratowyd Cynllun Cyfalaf y Cyngor a Chyllideb Refeniw mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Gwasanaeth, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Pwyllgorau Craffu, y Cabinet a'r Cyngor.

7.2 Fe gyflwynir Cynllun Busnes y Stoc Tai, cyllideb refeniw a chyfalaf i aelodau. Fe ymgynghorir hefyd â Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych ar y cynigion.

7.3 Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â'i ymgynghorwyr rheolaeth y trysorlys, Arlingclose Ltd.

**Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

7.4 Mae Rheolaeth y Trysorlys yn golygu gofalu am symiau sylweddol o arian felly mae'n rhan hanfodol o waith y Cyngor. Mae'n gofyn am strategaeth gadarn a rheoliadau priodol i ddiogelu arian y Cyngor, i sicrhau cyflawni enillion rhesymol ar fuddsoddiadau a bod dyled yn cael ei rheoli'n effeithiol ac yn ddarbodus.

7.5 Fe fabwysiadodd y Cyngor God Ymarfer diwygiedig CIPFA ar Reolaeth y Trysorlys (Tachwedd 11) yn ei gyfarfod ar Chwefror 28, 2012. Mae'n ofynnol, yn ôl y Cod, i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys bob blwyddyn ariannol.

7.6 Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol a allai weld buddsoddi dros £130m i gyflenwi ei flaenoriaethau dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n hanfodol bod y Cyngor â swyddogaeth reoli trysorlys gadarn ac effeithiol i danategu'r buddsoddiad yma a phob gweithgaredd arall.

## 8 Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

8.1 Mae Rheolaeth y Trysorlys yn fentrus yn ei hanfod fel y'i hamlinellir yn y Datganiad Strategaeth. Mae'r Cyngor â pholisi rheoli risg ond mae'n amhosib dileu'r risgiau hyn yn gyfangwbl.

## 9 Grym i wneud y Penderfyniad

9.1 Deddf Llywodraeth Leol 2003 sy'n pennu'r gofyniad i awdurdodau lleol osod Dangosyddion Darbodus ac mae'n gofyn i'r Cyngor gydymffurfio â Chod Darbodus Cyllid Cyfalaf ar gyfer Awdurdodau Lleol sydd wedi ei gynhyrchu gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).